

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2022. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**  
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**  
**15 Tachwedd 2022**

## **RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL**

### **1 Disgrifiad**

- 1.1 Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau") yn diffinio trydydd partïon y caiff awdurdod lleol ofyn am wybodaeth ganddynt, i'w helpu i gyflawni ei swyddogaethau bilio ardrethi annomestig, ac yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau perthnasol.

### **2 Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

- 2.1 Dim.

### **3 Y cefndir deddfwriaethol**

- 3.1 Mae paragraff 5(1B) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") yn darparu y caiff cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru ("awdurdod bilio") gyflwyno hysbysiad i bersonau penodol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â hereditament yn ardal yr awdurdod bilio hwnnw. Mae'r personau hynny'n cynnwys person sy'n cynnal busnes mewn perthynas â'r hereditament hwnnw, o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5(1D)(c) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988.
- 3.2 Mae paragraff 5F o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau mewn perthynas â hysbysiadau a gyflwynir o dan baragraffau 5 a 5A o Atodlen 9. Mae darpariaeth o'r fath yn cynnwys galluogi i hysbysiad gael ei gyflwyno i berson naill ai wrth ei enw neu unrhyw ddisgrifiad a ragnodir.
- 3.3 Gwneir y Rheoliadau o dan y pwerau hyn ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft.

### **4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

- 4.1 Ar 16 Hydref 2018, yn dilyn [ymgyngoriad](#), [cyhoeddodd](#) Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid becyn o fesurau a fyddai'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â thwyll ac osgoi talu ardrethi annomestig. Ers hynny mae nifer o'r mesurau a gyhoeddwyd wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r Rheoliadau yn rhoi effaith ymarferol i un o'r mesurau hyn, drwy ddiffinio'r trydydd partïon y caiff awdurdodau bilio ofyn am wybodaeth ganddynt, i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau bilio ardrethi annomestig.
- 4.2 Dechreuodd y gwaith o roi'r mesur hwn ar waith gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"). Roedd Deddf 2021 yn pennu amserlenni a chosbau perthnasol yn ymwneud â darparu gwybodaeth ac yn cyflwyno pŵer y gwneir y Rheoliadau oddi tano, gan alluogi i'r trydydd partïon perthnasol gael eu diffinio.

- 4.3 Bwriad y ddeddfwriaeth yw galluogi awdurdodau bilio i gyflwyno hysbysiad i drydydd parti, gan ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i hereditament. Byddai hyn yn gwella gallu'r awdurdod bilio i gyfrifo atebolrwydd yn gywir ac yn lleihau'r risg o'r angen i ad-dalu trethdalwyr. Byddai newidiadau hefyd yn sicrhau, pan fyddai gwybodaeth yn cael ei chadw yn ôl at ddibenion osgoi, y byddai gan awdurdodau bilio bwerau i gasglu gwybodaeth berthnasol gan bersonau a fyddai'n cadw'r wybodaeth honno.
- 4.4 Gall trydydd partiön fod yn darparu gwasanaeth mewn perthynas â hereditament ac, yn ei dro, yn cadw gwybodaeth a fyddai'n helpu'r broses bilio. Er enghraifft, efallai y bydd yr wybodaeth a gedwir gan drydydd parti sy'n darparu gwasanaeth mewn perthynas â hereditament yn gallu helpu awdurdodau bilio i nodi a yw'r hereditament yn cael ei feddiannu, gan bwy, a sut y mae'n cael ei ddefnyddio. Ar hyn o bryd, gall awdurdodau bilio ofyn am wybodaeth, ond nid yw trydydd partiön o dan unrhyw rwymedigaeth i ymateb i'r cais.
- 4.5 Mae'r Rheoliadau yn diffinio trydydd partiön sy'n cynnal busnes mewn perthynas â hereditament y mae awdurdodau bilio yn gallu gofyn am wybodaeth ganddynt. Mae'r rhain yn berson sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig (ee asiant ardrethu), yn ogystal â chwmnïau cyfleustodau sy'n darparu gwasanaethau dŵr, carthffosiaeth, nwy, trydan a chyfathrebu.
- 4.6 Drwy greu gofyniad cyfreithiol, bydd gan bobl nad ydynt yn cydweithredu ag awdurdodau bilio lai o gymhellant i barhau â'r ymddygiad hwn, gyda risg o fod yn destun cosb naill ai am beidio â chydymffurfio neu am ddarparu gwybodaeth ffug. Bydd hefyd yn gwneud rhannu gwybodaeth yn haws ar y sail bod gofyniad cyfreithiol ynghlwm wrtho.
- 4.7 Er mwyn rhoi eglurder ynghylch sut y byddai trydydd partiön yn bodloni rhwymedigaeth, rhaid i awdurdodau bilio gyflwyno hysbysiad i'r trydydd parti perthnasol. Nodir ystod o ddulliau yn y Rheoliadau o ran sut y caiff awdurdod bilio beri bod hysbysiad yn cael ei gyflwyno i berchennog, meddiannydd neu drydydd parti mewn perthynas â'r hereditament.
- 4.8 Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2023 a byddant yn cael effaith o'r diwrnod hwnnw ymlaen.

## 5 Ymgynghori

- 5.1 Cynhaliwyd [ymgynghoriad](#) polisi rhwng 4 Ebrill a 7 Mehefin 2018. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thwyll ac osgoi o fewn y system ardrethi annomestig yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar becyn eang o fesurau. Cyhoeddwyd [crynodeb o'r ymatebion](#) ar 16 Hydref 2018 ochr yn ochr â [chyhoeddiad](#) yn nodi'r pecyn o fesurau i'w cymryd, ac un ohonynt oedd cyflwyno pŵer cyfreithiol newydd i awdurdodau

bilio ofyn am wybodaeth gan drydydd partiön i helpu i gyflawni'r swyddogaethau bilio a chasglu.

- 5.2 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ynghylch trydydd partiön yn gorfod darparu gwybodaeth yn dilyn cais gan awdurdod bilio, y cyfnod y dylai trydydd partiön ddarparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani ynddo, a threfn gosb ar Lefel 1 ar y raddfa safonol pan fo trydydd parti wedi cadw gwybodaeth yn ôl neu wedi darparu gwybodaeth ffug yn fwriadol.
- 5.3 Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid cyflwyno rhwymedigaeth, yn rhoi safbwyntiau cymysg ynghylch yr amserlen a awgrymwyd o 21 diwrnod, ac yn cefnogi'r gosb arfaethedig yn fras, gyda nifer o alwadau am lefel uwch o gosb. O ganlyniad, gwnaed rhai newidiadau i'r trefniadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2021. Cynyddwyd yr amserlen ar gyfer ymateb i gais am wybodaeth i 56 diwrnod a diwygiwyd y drefn gosb gysylltiedig i gael haenau dros amser, heb fod yn fwy na'r uchaf o'r gwerth ardrethol dyddiol neu £500.
- 5.4 Cafwyd 42 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys asiantiaid eiddo, cyrff cynrychioliadol ehangach, cynrychiolwyr o sectorau penodol, awdurdodau bilio, trethdalwyr, a dinasyddion.
- 5.5 Roedd drafft o'r Rheoliadau yn destun [ymgynghoriad technegol](#) rhwng 24 Mehefin a 16 Medi 2022. Cafwyd wyth o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys asiantiaid eiddo, cyrff cynrychioliadol, awdurdodau bilio, ac unigolion. Ni ystyriwyd bod angen gwneud unrhyw newidiadau i fanylion y Rheoliadau drafft yn dilyn yr ymgynghoriad technegol. Ymgynghorwyd ar y Rheoliadau drafft ar gyfer eu gwneud yn 2023. Yn dilyn ymgynghori, mae bellach wedi bod yn bosibl gwneud y Rheoliadau yn 2022 ac mae'r enw wedi'i ddiwygio yn unol â hynny. [Cyhoeddwyd](#) crynodeb o'r ymatebion.

## RHAN 2: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6 Opsiynau

6.1 Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn mewn perthynas â phersonau y mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth, a chyflwyno hysbysiadau cysylltiedig. Mae'r holl gostau a manteision a fesurir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cyhoeddi.

6.2 Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn:

**Opsiwn 1 – Gwneud dim.** Cadw'r arfer bresennol, gyda gallu'r awdurdodau bilio i ofyn am wybodaeth gan drydydd partïon yn parhau i fod wedi'i gyfyngu.

**Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau.** Deddfu i ddiffinio'r personau y caiff awdurdodau bilio ofyn am wybodaeth ganddynt ac i nodi'r ffordd y caniateir gofyn am wybodaeth.

### 7 Costau a manteision

#### Opsiwn 1 – Gwneud dim

7.1 Ni fyddai Opsiwn 1 yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol. Byddai awdurdodau bilio yn cyflawni eu swyddogaethau bilio yn unol â'r gweithdrefnau presennol ac ni fyddent yn gallu manteisio ar wybodaeth berthnasol gan bersonau penodol.

#### Costau

7.2 Ni fyddai unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai ymddygiad osgoi sy'n ymwneud â chadw gwybodaeth yn ôl yn parhau i ddiwydd, gan gynrychioli colled refeniw ardrethi annomestig sy'n ffynhonnell arian ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol. Nid yw'n bosibl amcangyfrif yn gywir faint o arian sy'n cael ei golli oherwydd yr ymddygiad hwn sy'n bodoli. Defnyddiwyd darnau o ddata awdurdodau bilio yn 2017 i amcangyfrif bod dulliau osgoi gwahanol yn cyfateb i golli hyd at £20 miliwn o refeniw bob blwyddyn.

7.3 Ni ystyriwyd bod cadw gwybodaeth yn ôl yn cyfrannu'n sylweddol at yr amcangyfrif llawn o'r refeniw a gollir, ond mae'r dull hwn o osgoi yn gweithredu fel ffactor cyfranogol sy'n arwain at filio anghywir. Mae costau gweinyddol ychwanegol ynghlwm ag ail-filio, pe bai gwybodaeth a oedd yn cael ei chadw yn ôl yn flaenrol yn cael ei chywiro.

#### Manteision

7.4 Byddai'r gweithdrefnau presennol yn cael eu cadw, gan osgoi unrhyw ansicrwydd neu feichiau gweinyddol newydd sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau.

## **Anfanteision**

- 7.5 Ni fyddai gwneud dim yn mynd i'r afael ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru a'r penderfyniad a gyhoeddwyd yn dilyn ymgynghori. Byddai'n methu â sicrhau bod gan awdurdodau bilio ddigon o fynediad at wybodaeth wrth gyflawni eu holl swyddogaethau bilio.

## **Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau**

- 7.6 Opsiwn 2 fyddai gwneud y Rheoliadau i ddiffinio trydydd partïon y caiff awdurdodau bilio ofyn am wybodaeth ganddynt er mwyn cyflawni eu swyddogaethau bilio ardrethi annomestig. Byddai'n galluogi bilio mwy cywir ac yn sicrhau y gellid cael gwybodaeth gywir pan gaiff ei chadw yn ôl fel arall. Byddai'r newidiadau yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023, yn unol â'r rhestr ardrethi nesaf, ac yn gymwys wrth symud ymlaen.

## **Costau**

- 7.7 Ni nodwyd unrhyw gostau uniongyrchol. Gall fod cost uwch ar gyfer awdurdodau bilio wrth weinyddu hysbysiadau i bersonau y mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth, yn ogystal â chostau gweinyddol uwch i'r personau y cyflwynir hysbysiad iddynt. Nid oes unrhyw amcangyfrifon cywir o'r costau hyn ar gael, er bod disgwyl iddynt fod yn fach iawn gan y bydd ceisiadau a wneir i drydydd partïon yn gyfyngedig ac yn cael eu targedu.
- 7.8 Gall darparu gwybodaeth arwain at newid atebolrwydd trethdalwyr ardrethi annomestig, gan gynyddu eu costau. Gallai hefyd esgor ar lai o atebolrwydd.

## **Manteision**

- 7.9 Bydd y Rheoliadau yn galluogi awdurdodau bilio i dargedu'n well sefyllfaoedd pan fo diffyg gwybodaeth yn creu anawsterau wrth gyflawni eu swyddogaethau bilio. Yr effaith gyffredinol ar y sylfaen dreth fyddai biliau sy'n adlewyrchu'n fwy cywir union amgylchiadau trethdalwyr. Byddai mwy o degwch drwy'r system ardrethi annomestig, a llai o senarios pan oedd cadw gwybodaeth yn ôl yn galluogi i atebolrwydd rhy isel gael ei godi.
- 7.10 Bydd y Rheoliadau yn gwneud rhannu gwybodaeth yn haws ac yn gliriach ar y sail bod gofyniad cyfreithiol ynghlwm wrtho.
- 7.11 Drwy alluogi'n well i wybodaeth gywir gael ei chadw gan awdurdodau bilio, byddai hyn yn lleihau'r angen i ail-filio, a fyddai'n lleihau costau gweinyddol yr awdurdod bilio yn ogystal â rhoi sicrwydd ychwanegol i drethdalwyr.
- 7.12 Byddai gwneud y Rheoliadau yn mynd i'r afael ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru a'r penderfyniad a gyhoeddwyd yn dilyn ymgynghori.

## **Anfanteision**

7.13 Gallai fod mwy o gostau gweinyddol ar gyfer awdurdodau bilio a phersonau y mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth yn sgil rhannu gwybodaeth o dan y Rheoliadau. Rhagwelir y byddai hyn yn cael ei wrthbwysu ar gyfer awdurdodau bilio gan fanteision dileu'r angen i ail-filio. Ni chredir ychwaith y bydd hyn yn rhoi baich gormodol ar y trydydd partïon dan sylw, gan fod gofynion tebyg yn bodoli mewn meysydd cyfreithiol eraill a bydd ceisiadau am wybodaeth yn gyfyngedig ac yn cael eu targedu.

## **Crynodeb o'r opsiynau**

7.14 Ni fyddai gwneud dim yn arwain at unrhyw newidiadau i'r arfer bresennol pan fo pwerau awdurdodau bilio i ofyn am wybodaeth gan bersonau penodol a allai helpu gyda swyddogaethau bilio wedi'u cyfyngu gan ddiffyg gofyniad cyfreithiol i drydydd partïon diffiniedig gydymffurfio â cheisiadau o'r fath. Ni fyddai hyn yn cyflawni penderfyniad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau bilio yn cael mynediad at wybodaeth berthnasol wrth gyflawni eu swyddogaethau. Felly, nid Opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffefrir.

7.15 Byddai'r dull a ddisgrifir gan Opsiwn 2 yn galluogi darparu gwybodaeth yn well ac fe'i cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o becyn o fesurau ar 16 Hydref 2018. Cyhoeddwyd y Rheoliadau ar ffurf drafft ar gyfer [ymgyngoriad technegol](#) ar 24 Mehefin 2022.

7.16 Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir.

## 8 Dyletswyddau

- 8.1 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.** Byddai sicrhau bod awdurdodau bilio yn gallu gofyn am wybodaeth gan bersonau a allai fod â gwybodaeth am hereditament yn galluogi bilio mwy cywir. Bydd y sicrwydd uwch ynghylch bilio yn hybu sefydlogrwydd ac eglurder yn y sylfaen drethu ardrethi annomestig, ac o ganlyniad cyllid llywodraeth leol, ac yn cyfrannu at y nod llesiant o sicrhau Cymru lewyrchus.
- 8.2 **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.** Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.
- 8.3 **Y Gymraeg.** Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal wedi'i nodi mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth hon.
- 8.4 **Cydraddoldeb.** Ni nodwyd effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bersonau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Rwyf wedi ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wrth ddatblygu'r Rheoliadau hyn: ni nodwyd unrhyw fodd uniongyrchol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Fodd bynnag, bydd y sefydlogrwydd cynyddol ar gyfer cyllid llywodraeth leol yn cyfrannu tuag at effeithiolrwydd awdurdodau lleol sy'n cyflawni eu dyletswydd economaidd-gymdeithasol wrth ddefnyddio eu hadnoddau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.
- 8.5 **Y sector gwirfoddol.** Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar y sector gwirfoddol.

## 9 Asesiad cystadleuaeth

- 9.1 Mae prawf hidlo cystadleuaeth wedi'i gynnal ar y Rheoliadau ac ystyrir bod y risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn isel.

## 10 Adolygu ar ôl gweithredu

- 10.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y newid ar y sylfaen drethu ardrethi annomestig, yn ogystal ag effeithiau penodol ar drethdalwyr, sectorau, awdurdodau bilio a rhanddeiliaid eraill. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y gwaith hwn drwy ei fforymau a'i gweithgorau cynrychioladol rheolaidd.